

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELODAU CYNGOR

BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau yn ystod blwyddyn y Cyngor a ddaeth i ben fis Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau cwblhau

Mae Cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu cyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (uchafswm).

Cynghorydd: Debbie Wallice

Plaid: Ceidwadwyr Cymru

Ward: Parc Borrass

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol (darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan CBSW):

- Cyngor Llawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
- Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes
- Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles
- Panel Cludiant Ysgolion (Apeliadau Llwybrau Peryglus) I
- Panel Ymweliadau Rota â Chartrefi'r Henoed

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan y Cynghorydd):

- Cyngor Cymuned Acton

Adran 2: Gweithgaredd yn fy Etholaeth:

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Cynghorydd Parc Borrass rwyf wedi delio â llawer o bryderon trigolion yn amrywio o gasgliadau bin a gynorthwyr i drefnu cyfarfod cymunedol ynglŷn â'r pryderon cysylltiedig â'r cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ar Ffordd Parc Borrass. Isod gwelir enghreifftiau o'r hyn sydd wedi fy nghadw'n brysur.

Unwaith y mis rwyf wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd yn Eglwys St. John er mwyn rhoi cyfle i drigolion godi pryderon mewn amgylchedd cyfrinachol. Mae fy nghymorthfeydd misol hefyd wedi caniatáu i drigolion gymdeithasu a chyfarfod y tîm plismona lleol sydd hefyd wedi helpu i ymdrin â materion oedd yn ymwneud â nhw.

Fel y soniais eisoes mi wnes i hefyd gynnal cyfarfod cymunedol ar y bwriad i sefydlu ysgol Gymraeg newydd ar Ffordd Parc Borrass. Mae hyn wedi creu llawer o bryder a chwestiynau ymysg y trigolion ynghylch seilwaith ein hardal ac roedd y Cynghorydd Phil Wynne, Aelod Arweiniol Addysg ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.

Fe wnaeth fy nghydweithwyr a minnau hefyd gyfarfod â Phennaeth ysgol Parc Borrass ynghylch y problemau parcio a thraffig sy'n wynebu'r ysgol a'r cyffiniau ar hyn o bryd. Roedd yn gyfarfod cynhyrchiol iawn a

daethom oddi yno gyda chynllun cadarnhaol iawn i fynd i'r afael â'r broblem

Yr wyf hefyd wedi cael sawl cyfle i gyfarfod ein tîm Strydwedd lleol. Rhoddodd hyn gyfle i mi roi gwybod am unrhyw broblemau gyda'n ffyrdd, palmentydd, biniau ayyb yn uniongyrchol i'r tîm sy'n delio a'r materion hyn. Rydym wedi gweld sawl enghraifft lwyddiannus o'r cyfathrebu hwn, gyda thyllau yn y ffyrdd wedi'u llenwi, goleuadau stryd wedi'u trwsio a draeniau wedi'u clirio - diolch enfawr i'n tîm strydwedd am wneud hyn - mae eu gwaith rhagorol wedi ei nodi a'i werthfawrogi, a byddaf yn parhau i roi pwysau ar CBSC i wneud gwaith adferol a fydd yn para'n hirach ar y ffyrdd sydd fwyaf o angen hynny.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Eraill

Yn gynharach eleni lansiais fenter peilot wedi'i hunan-ariannu i daclo'r broblem baw cŵn ym Mharc Borrás. Roedd hyn yn ymwneud a gosod cynwysyddion bagiau baw cŵn ar bolion lamp ar draws y ward, gan alluogi unrhyw un sy'n mynd a'u ci am dro heb fag i gymryd un am ddim a glanhau ar ôl eu ci. Mae'r cynllun hwn yn un sydd ar y gweill o hyd a gwelwyd gostyngiad mewn baw ci yn yr ardaloedd lle cafodd ei gyflwyno.

Rwyf hefyd wedi cysylltu â Swyddogion Tai CBSW i gyflwyno offer cymorth corfforol mewn cartrefi ym Mharc Borrás, gan roi cefnogaeth ychwanegol i drigolion pan maen nhw angen hynny fwyaf.

Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi yn cynnal trafodaethau rhwng Cymuned Borrás a Virgin Media. Yn ystod eu rhaglen waith fawr bu llawer o aflonyddwch ond cafodd hyn ei ddatrys yn ddiweddarach. Ar ddechrau eu rhaglen waith cynhaliats noson wybodaeth gymunedol gan roi cyfle i drigolion lleol ofyn unrhyw gwestiynau ayyb i Virgin Media a'u tîm o gontractwyr.

Yn ystod y flwyddyn hefyd rwyf wedi cymryd rhan mewn sawl taith ar droed o amgylch y gymuned gyda'n tîm plismona lleol. Golyga hyn y gallai plismona lleol feithrin perthynas gryfach gyda'r gymuned yn ogystal â bod yn fwy amlwg yn yr ardal leol.

Ym mis Medi y llynedd, rhoddais bwysau ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau proses lyfn a didrfferth pan newidiodd y feddygfa leol o fod yn un a reolwyd gan feddygon teulu i reolaeth y Bwrdd Iechyd oherwydd bod y meddygon yn ymddeol ac yn ildio eu contract GMS. Ers i hynny ddigwydd ym mis Hydref mae gwasanaethau wedi aros yn gymharol gyson a thebyg i fel yr oeddent. Byddaf yn parhau i gadw llygad agos ar hyn.

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd:

Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi cael sawl sesiwn hyfforddi gan CBSW a Chyngor Cymuned Acton. Rwyf hefyd wedi cael cyfle i fynychu gwahanol weithdai a gynhaliwyd gan CBSW. Roeddent yn addysgiadol dros ben ac maent wedi fy helpu i wella yn fy rôl fel cynghorydd.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Ers mis Mai 2017 rwyf wedi bod mewn cyswllt rheolaidd â thrigolion gyda sawl darn o lenyddiaeth yn mynd drwy bob drws yn y ward. Mae hyn yn cynnwys cylchlythyr tymhorol sy'n rhoi diweddariadau i drigolion am faterion yn ein cymuned ni. Nid yw hyn yn cynnwys llythyrau personol at drigolion am faterion personol.

Rwyf hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd yn, ac yn cynnal tudalen 'Newyddion Parc Borrás' ar Facebook. Mae hyn yn caniatáu i mi roi diweddariadau 'amser go iawn' i drigolion am faterion lleol yn ogystal ag am y gwaith yr wyf yn ei wneud i fynd i'r afael â nhw.

Llofnod y Cynghorydd : D Wallace

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2018